Centre of expertise on child sexual abuse

# Negeseuon allweddol o ymchwil ar ymddygiad rhywiol niweidiol mewn cyd-destunau ar-lein

Sarah Brown,
Prifysgol Arfordir yr Haul a
Phrifysgol Gorllewin Lloegr (UWE)

Jasmin Tregidga, Canolfan arbenigedd ar
gam-drin plant yn rhywiol

**Hydref 2023**

www.csacentre.org.uk

## Negeseuon allweddol

Mae technoleg, mannau ar-lein a chyfathrebu digidol bellach wedi'u gwreiddio mor ddwfn yng ngweithgareddau bob dydd plant fel ei bod bron yn amhosibl gwahanu rhyngweithio ar-lein oddi wrth agweddau eraill ar eu bywydau cymdeithasol.

Er nad yw o reidrwydd yn amhriodol, mae cyfranogiad plant mewn ymddygiad rhywiol drwy dechnoleg yn gymhleth. Yn aml, bydd plant yn creu delweddau o'u hunain gyda chaniatâd fel rhan o berthynas rywiol, ond mae rhai – merched yn enwedig – yn rhannu delweddau oherwydd gorfodaeth, gorfodaeth rywiol neu fasnachu. Gall deall sut mae plant yn dod i gysylltiad â phornograffi a'u profiadau ohono wella eu dealltwriaeth o'u hymddygiad rhywiol.

Mae mannau ar-lein yn cynnig cyfleoedd ar gyfer ymateb yn gyson ac ar unwaith, bod yn ddienw, a phwyslais ar 'hoffi a dilynwyr', sy'n gallu annog gorhyder. Gall plant fod yn arbennig o agored i niwed rhywiol yn yr amgylcheddau hyn os ydynt yn unig neu wedi'u hynysu'n gymdeithasol, os oes ganddynt anghenion addysgol arbennig, neu os ydynt yn ceisio deall agweddau ar eu hunaniaeth a chysylltu â phobl fel nhw.

Mae effaith niwed rhywiol mewn cyd-destunau ar-lein yn amrywio'n fawr, a gall fod yn ddifrifol a phara am byth: os yw delweddau o blentyn wedi cael eu rhannu, er enghraifft, mae'r plentyn yn cael ei erlid eto bob tro y caiff ei weld. Gall arwain at deimladau o euogrwydd, cywilydd a hunan-fai, a gall wneud plant yn agored i niwed rhywiol pellach.

Mae plant sydd wedi cael eu niweidio'n rhywiol mewn cyd-destunau ar-lein eisiau gallu siarad â phobl sy'n eu credu ac sy'n gwybod sut i'w helpu, ond maen nhw'n dweud eu bod yn cael llai o gymorth na dioddefwyr niwed rhywiol 'wyneb yn wyneb'. Efallai y byddan nhw'n teimlo'n gyfrifol am y niwed maen nhw wedi'i ddioddef, neu'n ofni y byddan nhw'n mynd i drwbl am anfon delweddau neu fynd ar-lein; gall y pryderon hyn eu hannog i beidio â gofyn am help.

Mae gweithwyr proffesiynol yn aml yn teimlo na allant helpu'r plant hyn am nad ydynt yn ystyried eu hunain yn 'arbenigwyr' yn y dechnoleg, ond mae'r sgiliau sydd eu hangen ar weithwyr proffesiynol i gefnogi ac amddiffyn plant yn y cyd-destun hwn yr un sgiliau craidd ag y maent yn eu defnyddio i ymateb i unrhyw fath o gam-drin plant: ymarfer sy'n seiliedig ar berthynas, siarad â phlant a derbyn yr hyn y maen nhw'n ei ddweud.

Dylid datblygu ymyriadau'n unigol yn unol â chymwyseddau plant, a dylent annog rhieni i gymryd rhan; dylid osgoi iaith y gellir ei dehongli fel beio'r dioddefwr. Ni fydd cyfyngu ar fynediad plant at ddyfeisiau'n effeithiol, gan y gall hyn wneud iddynt deimlo'n ynysig, yn wahanol i'w cyfoedion, ac yn agored i niwed. Dylid osgoi gwneud dioddefwyr/goroeswyr a'r rheini sydd wedi cael eu gorfodi i gymryd rhan mewn gweithgareddau gan eraill yn droseddwyr.

Mae niwed rhywiol plant mewn cyd-destunau ar-lein yn aml yn cael ei wneud gan bobl y mae'r dioddefwr yn eu hadnabod, fel aelodau o'r teulu, ffrindiau neu gydnabod. Mewn un astudiaeth, dywedodd bron i draean o'r rheini a oedd wedi goroesi niwed rhywiol ar-lein eu bod wedi cael eu niweidio gan blant eraill.

Gall rhaglenni addysg i atal ymddygiad rhywiol niweidiol gan blant fod yn effeithiol, ond mae angen iddynt gynnwys yr ysgol a'r gymuned ehangach, ymgorffori dulliau amrywiol, cynnwys negeseuon atgoffa dro ar ôl tro a chamau dilynol, ac ymgysylltu'n weithredol â phlant.

Wrth benderfynu ar ymyriadau priodol ar gyfer plant sydd wedi niweidio mewn cyd-destunau ar-lein, mae angen i weithwyr proffesiynol asesu ymddygiad cyfan y plentyn – ar-lein ac all-lein – a cheisio deall y rhesymau drosto.

Mae'r rhyngrwyd a chyfathrebu sy'n seiliedig ar dechnoleg bellach wedi'u gwreiddio ym mywydau beunyddiol oedolion a phlant, i'r fath raddau fel ei bod yn anodd dychmygu sut beth fyddai bywyd hebddynt. Maen nhw'n dod â rhyddid a chyfle, ond hefyd risg a'r potensial ar gyfer niwed; gall technoleg ddigidol fod yn rhan o bron pob math o gam-drin plant yn rhywiol.

Mae'r papur hwn yn dwyn ynghyd ddysgu o ymchwil sydd eisoes yn bodoli ar ddefnydd plant o dechnoleg cyfathrebu digidol a'r rhyngrwyd – drwy gyfryngau cymdeithasol, negeseuon testun, gemau ar-lein, byrddau negeseuon, ffrydio ac ati – ynglŷn â rôl y dechnoleg hon yn eu hymddygiad rhywiol a'r potensial iddyn nhw gael eu niweidio'n rhywiol neu niweidio eraill yn rhywiol drwy ei defnyddio.

**Mae'r term 'plant' yn y ddogfen hon yn cyfeirio at unigolion o dan 18 oed.**

**Rydyn ni'n defnyddio'r term 'rhiant' ar gyfer rhywun sydd â chyfrifoldeb dros ofalu am blentyn; gall yr unigolyn fod yn rhiant biolegol, yn llys-riant, yn rhiant mabwysiadol, yn rhiant maeth, neu'n berthynas arall sy'n cyflawni'r rôl honno.**

**Rydyn ni'n defnyddio 'niwed rhywiol' i olygu'r niwed a achosir i blentyn gan gam-drin rhywiol oedolyn neu ymddygiad rhywiol plentyn arall; sylwch efallai na fydd y niwed ei hun o natur rywiol.**

Mae'r papur hwn wedi'i ddylunio i'w ddarllen ochr yn ochr â ***Negeseuon Allweddol o Ymchwil ar Oedolion yn Cam-drin Plant yn Rhywiol mewn Cyd-destunau Ar-lein*** a ***Negeseuon Allweddol o'r Ymchwil ar Blant a Phobl Ifanc Sy'n Arddangos Ymddygiad Rhywiol Niweidio***, a gyhoeddwyd gan y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol.

## Rôl mannau ar-lein a thechnoleg ddigidol yn ymddygiad rhywiol plant, gan gynnwys ymddygiad niweidiol

Mae gan bron pob plentyn yn y DU fynediad at y rhyngrwyd a gwahanol fathau o dechnoleg cyfathrebu: mae naw o bob 10 plentyn yn berchen ar eu ffôn symudol eu hunain erbyn 11 oed (Ofcom, 2022). Er eu bod wedi 'cael eu geni i fyd ar-lein', ac yn aml yn ymddangos yn fwy medrus nag oedolion wrth ddefnyddio technoleg ddigidol, nid yw hyn o reidrwydd yn golygu eu bod yn gallu llywio amgylcheddau ar-lein yn ddiogel (Livingstone et al, 2017).

In a recent survey, 16% of young adults in the USA said Mewn arolwg diweddar, dywedodd 16% o oedolion ifanc yn UDA eu bod wedi cael eu niweidio'n rhywiol ar-lein cyn 18 oed, yn bennaf gan aelodau o'r teulu, ffrindiau neu gydnabod. Ymysg y dioddefwyr/goroeswyr hyn, dywedodd bron i draean (30%) fod plant eraill wedi'u niweidio'n rhywiol ar-lein; mewn achosion o 'secstio heb ganiatâd' (a ddiffinnir yn yr arolwg hwnnw fel rhannu delweddau heb ganiatâd a thynnu neu gynhyrchu delweddau heb ganiatâd), dywedodd bron i hanner (47%) o ddioddefwyr/goroeswyr fod pobl dan 18 oed wedi bod yn gyfrifol (Finkelhor, Turner and Colborn, 2022).

Mae'r rhan fwyaf o ryngweithiadau rhywiol ar-lein a allai fod yn niweidiol yn digwydd ar amrywiaeth eang o lwyfannau poblogaidd 'gwe agored' gan gynnwys Snapchat, Instagram, Facebook Messenger, Facebook, WhatsApp, Google Hangouts/Meet, TikTok, 'X' (a elwid gynt yn Twitter) a YouTube (Goharian et al, 2022).

Mae'r term 'ymddygiad rhywiol niweidiol' wedi'i ddefnyddio i ddisgrifio ymddygiad rhywiol gan bobl ifanc dan 18 oed sy'n "ddatblygiadol amhriodol, all fod yn niweidiol iddyn nhw'u hunain neu eraill neu'n gamdriniol tuag at blentyn, person ifanc neu oedolyn arall" (Hackett et al, 2019). ***Negeseuon Allweddol o'r Ymchwil ar Blant a Phobl Ifanc Sy'n Arddangos Ymddygiad Rhywiol Niweidio***, a gyhoeddwyd gan y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol, yn crynhoi canfyddiadau ymchwil sy'n ymwneud ag amrywiaeth o ymddygiad – ar-lein ac all-lein – a'r rheini sy'n ymwneud â nhw.

## Rhannu delweddau ar-lein

Gall plant gydsynio'n gyfreithiol i ymddygiad rhywiol *yn bersonol* o 16 oed ymlaen, ond mae rhannu delwedd o blentyn (dan 18 oed) yn drosedd. Mae hyn yn creu anawsterau i blant y mae rhannu delweddau gyda chaniatâd yn rhan o'u profiadau bob dydd (Bond, 2014; Phippen, 2016). Gall arwain at blant yn cael eu beio a'u troseddoli am rannu delweddau gyda chaniatâd sy'n cael eu defnyddio'n ddiweddarach i'w herlid.

Mae amrywiaeth eang o resymau pam mae plant yn rhannu delweddau ohonyn nhw eu hunain. Yn fwyaf cyffredin, mae'n cael ei rannu'n wirfoddol – er enghraifft, fel ffordd o ddangos eu bod yn hoffi rhywun, am hwyl, neu fel rhan o berthynas rywiol (Katz and El Asam, 2020; Baines, 2018). Fodd bynnag, mae rhai plant, yn enwedig merched, yn teimlo pwysau i anfon delweddau, neu wneud hynny oherwydd eu bod yn poeni y bydd y person arall yn colli diddordeb ynddyn nhw os na fyddant yn gwneud hynny (Revealing Reality, 2022a). Mae tua un o (Baines, 2018). Mae ymchwil yn awgrymu, pan fydd delweddau o blant yn cael eu casglu a'u defnyddio ar gyfer gorfodi, y gallai bechgyn fod yn fwy tebygol na merched o gael eu gorfodi am arian (Canadian Centre for Child Protection, 2022) tra bo merched yn aml yn cael eu gorfodi i ddangos mwy o ddelweddau (Baines, 2018). Mae hyn yn atgyfnerthu pwysigrwydd cydnabod cymhelliant a phrofiad pob unigolyn o rannu a derbyn delweddau.

O ran yr ymateb cyfiawnder troseddol i rannu delweddau a gynhyrchir gan blant eu hunain gyda chaniatâd, cyflwynodd y Swyddfa Gartref 'Deilliant 21' – lle nad yw ymchwiliad pellach er budd y cyhoedd – yn 2016. Mae hyn yn rhoi disgresiwn i'r heddlu yn yr amgylchiadau hyn i gofnodi trosedd fel un sydd wedi digwydd ond i beidio â chymryd camau ffurfiol yn ymwneud â chyfiawnder troseddol. Yn 2021/22, daeth chwarter (7,620) yr holl ymchwiliadau sy'n gysylltiedig â delweddau cam-drin rhywiol i ben gyda'r canlyniad hwn (Karsna and Bromley, 2023). Fodd bynnag, mae risg y bydd yr wybodaeth a gofnodir yn cael ei datgelu'n ddiweddarach mewn archwiliadau manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), gyda chanlyniadau sylweddol i gyfleoedd cyflogaeth a gyrfa plant yn y dyfodol (Bond and Phippen, 2019; Phippen and Bond, 2020).

## Effeithiau rhannu delweddau heb ganiatâd

Er bod llawer o blant yn dweud nad yw rhannu delweddau mewn perthnasoedd gyda chaniatâd yn aml yn arwain at niwed a bod llawer o bethau sy'n gadarnhaol amdanyn nhw (Katz and El Asam, 2020), mae pryder ynghylch beth allai ddigwydd i'r delweddau yn y dyfodol.

Mae rhywfaint o ymchwil yn tynnu sylw at natur ryweddol y niwed a achosir i enw da personol, er enghraifft, mae astudiaethau wedi canfod bod merched yn cael eu cywilyddio a bod bechgyn yn cael eu gwobrwyo'n gymdeithasol os ydyn nhw'n rhannu lluniau (Ringrose et al, 2012; Stanley et al, 2018; Project deSHAME, 2017). Mae hyn yn arbennig o niweidiol mewn cymunedau mwy traddodiadol neu grefyddol (Stanley et al, 2018). Mae merched o gefndiroedd llai breintiedig, a phlant sy'n llai hyderus am eu hymddangosiad, yn aml yn cael y profiadau gwaethaf o rannu delweddau, gan fod y delweddau'n cael eu defnyddio i'w cywilyddio neu eu bwlio (Revealing Reality, 2022a).

Pan fydd delweddau o blentyn wedi cael eu rhannu, mae potensial i'r plentyn fod yn ddioddefwr eto dro ar ôl tro, bob tro y bydd delwedd yn cael ei gwylio, ei hanfon neu ei derbyn (ECPAT International, 2020). Gall effaith hyn barhau i'r cyfnod pan fydd y plentyn yn oedolyn, gyda dioddefwyr/goroeswyr yn dweud eu bod yn poeni'n gyson am gael eu hadnabod gan rywun sydd wedi gwylio'r deunydd, ac yn wir, mae rhai wedi cael eu hadnabod fel hyn (Canadian Centre for Child Protection, 2017; Gewirtz-Meydan et al, 2018; Leonard, 2010).

## Gwylio pornograffi

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gweld pornograffi'n anfwriadol am y tro cyntaf, ac mae llawer yn teimlo bod yr hyn maen nhw'n ei weld yn 'afiach' ac yn eu 'drysu' (Comisiynydd Plant, 2023; Revealing Reality, 2020). Canfu un astudiaeth y gallai gwylio pornograffi'n fwriadol cyn 13 oed fod yn sbardun ar gyfer ymddygiad rhywiol niweidiol wyneb yn wyneb (Hollis a Belton, 2017). Mae gan rai plant ddiddordeb mawr mewn gwylio pornograffi, ac mae cyfran ohonyn nhw'n gwylio pornograffi treisgar a/neu anghyfreithlon – gan gynnwys deunydd cam-drin plant yn rhywiol – sy'n ymddangos ei fod yn gysylltiedig â defnyddio pornograffi'n aml (Hollis a Belton, 2017). Mae llawer o bornograffi yn cynnwys lefelau sylweddol o gynnwys treisgar, rhywiaethol a hiliol (Carrotte et al,

2020; Fritz et al, 2020; Shor and Golriz, 2019; Shor and Seida, 2019). Mae ymddygiad ymosodol ar sail rhywedd yn cael ei ddwysáu mewn pornograffi sy'n cynnwys menywod ifanc, y gall plant chwilio amdano oherwydd eu tebygrwydd oedran (Shor, 2019; Vannier et al, 2014). Anaml y mae'n portreadu agosatrwydd mewn perthynas, rhyw diogel, na thrafodaeth ynglŷn â chaniatâd (Antevska and Gavey, 2015; Lim et al, 2016; Vannier et al, 2014).

Mae llawer o blant yn teimlo bod pornograffi yn effeithio ar eu disgwyliadau a'u hymddygiad yn ystod rhyw, yn enwedig copïo rhyw garw neu rymus (Children's Commissioner, 2023; Revealing Reality, 2020). Maen nhw'n poeni am yr effaith ar eu dealltwriaeth o'r gwahaniaeth rhwng niwed a phleser rhywiol, ac mae merched yn dweud bod pornograffi yn cyfrannu'n bwysig at eu profiadau o weithredoedd rhywiol annymunol, poenus, peryglus ac wedi'u gorfodi (Children's Commissioner, 2023; Marston and Lewis, 2014; Rothman et al, 2015; Walker et al, 2015).

Mae cysylltiad rhwng gweld pornograffi di-drais a threisgar a'r tebygolrwydd o ymddwyn mewn ffordd rywiol niweidiol (Mori et al, 2023). Fodd bynnag, nid yw'n bosibl nodi cysylltiad achosol rhwng y gweithgareddau hyn: nid yw pob plentyn sy'n gweld pornograffi yn cymryd rhan mewn ymddygiad rhywiol niweidiol, ac i'r gwrthwyneb (Hollis and Belton, 2017).

## Gweithio gyda phlant sydd wedi ymddwyn mewn ffordd rywiol niweidiol ar-lein

Mae nifer cyfyngedig o astudiaethau wedi edrych ar raddfa ymddygiad rhywiol niweidiol 'gyda chymorth technoleg' yng Nghymru a Lloegr (Hollis and Belton, 2017; Vaswani et al, 2022), ond roedd bron i hanner y plant a gafodd eu hasesu yn 2017 ar gyfer gwasanaeth triniaeth ymddygiad rhywiol niweidiol 'Turn the Page' yr NSPCC (Hollis and Belton, 2017). Yn 2020/21, roedd cynnydd mawr yn nifer y plant sy'n cysylltu â Sefydliad Lucy Faithfull i gael cyngor a chymorth, gan gynnwys 155 a oedd wedi cyflawni trosedd rhywiol ar-lein (Jay et al, 2022).

Mae astudiaethau'n awgrymu bod plant sy'n ymddwyn mewn ffordd rywiol niweidiol mewn cyd-destunau ar-lein yn fechgyn Gwyn yn bennaf (Hollis and Belton, 2017; Vaswani et al, 2022). Canfu astudiaeth o blant a gafodd eu cyfeirio at y gwasanaeth 'Turn the Page' (gweler uchod) fod merched wedi bod yn ymwneud yn bennaf â chreu delweddau rhywiol o blant – gan gynnwys ohonynt eu hunain – tra bod y bechgyn wedi ymgysylltu ag amrywiaeth ehangach o lawer o ymddygiadau ar-lein (Hollis and Belton, 2017).

Canfuwyd bod gan fechgyn y mae eu hymddygiad rhywiol niweidiol yn digwydd mewn cyd-destunau ar-lein yn unig gefndiroedd a nodweddion gwahanol i'r rheini sydd hefyd yn arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol yn bersonol: maen nhw fel arfer yn hŷn ar adeg eu cyfeirio at wasanaethau, wedi profi llai o drawma, â llai o anawsterau iechyd meddwl neu ymddygiad, yn dod o gefndiroedd teuluol mwy sefydlog, ac yn perfformio'n well yn yr ysgol (Belton and Hollis, 2016; Hollis and Belton, 2017).

Mae'n gyffredin i blant gymryd rhan mewn mwy nag un math o ymddygiad rhywiol niweidiol, felly mae'n bwysig cael dealltwriaeth fanwl o ymddygiad plentyn, ar-lein ac wyneb yn wyneb (Allotey and Swann, 2019).

Dylid cymryd persbectif datblygiadol wrth asesu ymddygiad a'r hyn sy'n eu cymell. Efallai na fydd nodweddion sy'n cael eu hystyried yn draddodiadol yn gryfderau, fel sefydlogrwydd teuluol neu ymgysylltu ag addysg, yn ffactorau lliniarol ar gyfer ymddygiad ar-lein, felly mae'n bwysig peidio â gwneud rhagdybiaethau. Bydd gwahanol gymhellion yn gofyn am ymyriadau gwahanol, a ddylai fod yn unigol ac yn gyfannol, gan gynnig arweiniad a chymorth i'r plentyn, ei rieni/gofalwyr a'i rwydweithiau, ochr yn ochr ag ymyrraeth therapiwtig benodol ar gyfer y plentyn os yw'n briodol (Allotey and Swann, 2019).

Am arweiniad ymarferol ar gynnal asesiadau a gweithio gyda phlant sydd wedi ymddwyn mewn ffordd rywiol niweidiol ar-lein, gweler ***Technology-assisted Harmful Sexual Behaviour: Practice Guidance (2nd edition)***, a gyhoeddwyd gan y prosiect AIM a'r NSPCC.

## Pa mor agored yw plant i niwed rhywiol mewn cyd-destunau ar-lein

Mae rhai agweddau ar fannau ar-lein yn achosi i lawer o blant deimlo eu bod mewn mwy o berygl o niwed a cham-drin. Gall y cyfle i ymateb yn gyson ac ar unwaith, bod yn ddienw, a rhoi pwyslais ar 'hoffi a dilynwyr' arwain y defnyddwyr – boed yn oedolion neu'n blant – i orhyder (Project deSHAME, 2017).

Mae ymchwil yn awgrymu bod amrywiaeth eang o ffactorau sy'n gorgyffwrdd sy'n ymwneud â bod yn agored i niwed rhywiol mewn cyd-destunau ar-lein. Mae'r profiad o gael ei gam-drin o'r blaen – yn enwedig pan oedd y cam-drin yn rhywiol – yn gwneud plentyn yn fwy agored i niwed rhywiol ar-lein, yn ogystal â phrofiad o adfyd arall fel digartrefedd teuluol, diweithdra rhieni, cael ei dynnu oddi ar y teulu, carcharu rhieni, a'r rhieni'n defnyddio sylweddau (Turner et al, 2023). Mae'r canlynol hefyd yn fwy agored i niwed:

- merched a phlant anabl, sy'n fwy agored na phlant eraill i gael eu cam-drin yn rhywiol yn gyffredinol (UNICEF, 2017)
- plant ag anghenion addysgol arbennig – gall hyn fod oherwydd bod eu dymuniad i gynnal cyfeillgarwch, neu anhawster i bwyso a mesur canlyniadau rhai gweithredoedd, yn ei gwneud yn haws i eraill fanteisio arnynt (Revealing Reality, 2022b)
- plant ag anghenion addysgol arbennig – gall hyn fod oherwydd bod eu dymuniad i gynnal cyfeillgarwch, neu anhawster i bwyso a mesur canlyniadau rhai gweithredoedd, yn ei gwneud yn haws i eraill fanteisio arnynt (UNICEF, 2017)
- pobl ifanc lesbiaidd, hoyw a deurywiol, a'r rheini sy'n ystyried eu hunain yn drawsryweddol neu bobl sy'n cwestiynu/cwiar, a allai fynd ar-lein i geisio deall eu cyfeiriadedd rhywiol neu eu hunaniaeth o ran rhywedd a chysylltu â phobl fel nhw (Goharian et al, 2022; UNICEF, 2017; Setter et al, 2021)
- plant unig neu ynysig yn gymdeithasol, a allai dreulio mwy o amser ar-lein wrth iddyn nhw chwilio am gyfeillgarwch a chael eu derbyn. (Katz ac El Asam, 2020; Livingstone et al, 2017; Revealing Reality, 2022b).

## Cymorth i blant sydd wedi cael eu niweidio'n rhywiol mewn cyd-destunau ar-lein

Gall yr effaith o niwed rhywiol ar blant mewn cyd-destunau ar-lein fod yn ddifrifol, ac mae'n amrywio'n fawr ymysg dioddefwyr/goroeswyr (Hamilton-Giachritsis et al, 2017 a 2021; Joleby et al, 2020; Jonsson et al, 2019; Whittle et al, 2013); gweler hefyd yr adran 'Sharing images online' ('Rhannu delweddau ar-lein') uchod. Efallai fod ganddynt mwy o deimlad o euogrwydd, cywilydd a beio eu hunain, yn ogystal ag ymdeimlad o gyfrifoldeb oherwydd eu bod yn teimlo eu bod yn cymryd rhan mewn rhyw ffordd (Gewirtz-Meydan et al, 2018; Hamilton-Giachritsis et al, 2017 a 2021; Leonard, 2010).

Mewn llawer o achosion, nid yw plant yn troi at oedolion i ddechrau os ydynt yn cael problemau mewn cyd-destunau ar-lein; maen nhw'n troi at eu ffrindiau a'u cyfoedion (Ofcom, 2022), neu ddim yn dweud wrth neb o gwbl (Wolak et al, 2018). Maen nhw'n ofni y byddan nhw'n mynd i drwbl am anfon delweddau neu fynd ar-lein, neu'n meddwl nad yw gweithwyr proffesiynol yn deall y materion yn ddigonol (Prosiect Gwirionedd, 2022; Phippen a Phippen, 2018). Pan fyddant yn datgelu, maent yn adrodd nad ydynt yn cael yr un lefel o gefnogaeth â phlant sy'n cael eu niweidio'n rhywiol 'yn bersonol', oherwydd efallai y bydd oedolion yn tybio eu bod wedi cymryd risgiau neu wedi cymryd rhan yn y niwed (Hamilton-Giachritsis, 2017 a 2021).

Efallai y bydd plant hefyd yn ofni y bydd dyfeisiau'n cael eu cymryd oddi arnynt fel ffordd o atal y niwed. Mae ofnau o'r fath yn aml yn cael eu cyfiawnhau, gan fod oedolion amddiffynnol fel arfer yn osgoi risg ac eisiau gwahardd plant rhag defnyddio technoleg (Quayle a Cariola, 2019; Phippen a Phippen, 2018). Gan fod plant yn gwerthfawrogi eu bywydau ar-lein, nid yw'n fuddiol a gallai fod yn wrthgynhyrchiol rhoi negeseuon negyddol, cyfyngol, brawychus, sy'n seiliedig ar osgoi. Yn yr un modd, ni fydd cyfyngu neu ddileu mynediad at ddyfeisiau yn effeithiol, gan ei fod yn gwneud i blant deimlo'n ynysig, yn wahanol i'w cyfoedion, ac yn agored i niwed (Phippen a Bond, 2020; Beckett et al, 2019; Lloyd, 2020; UNICEF, 2017). Mae'r math hwn o ymateb hefyd yn cyfrannu at bryderon ynghylch beio dioddefwyr, fel y mae'r iaith a ddefnyddir yn aml wrth ymateb i'r plentyn (Cygnor y DU ar Ddiogelwch ar y Rhyngrwyd, 2022).

Mae unrhyw blentyn sydd wedi cael ei gam-drin yn rhywiol eisiau gallu siarad â phobl sy'n ei gredu ac sy'n gwybod sut i'w helpu. Mae'n bwysig cynnig amgylcheddau cefnogol lle mae plant yn teimlo eu bod yn gallu siarad am y niwed a achosir iddynt drwy dechnoleg ac yn hyderus y byddant yn cael eu cefnogi'n briodol (Phippen a Bond, 2022). Mae plant hefyd eisiau i weithwyr proffesiynol roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddyn nhw am y gweithdrefnau sydd i'w dilyn, rhannu gwybodaeth bwysig, ac egluro beth sy'n mynd i ddigwydd nesaf; maen nhw'n disgwyl i'r heddlu roi sicrwydd ac ymateb yn briodol (gan gynnwys drwy roi'r gorau i rannu delweddau a chael gwared ar ddelweddau), yn ddiogel, yn gyflym a heb fawr o ôl-effeithiau (Quayle a Cariola, 2019).

Mewn rhai achosion, efallai na fydd plant yn gwybod eu bod yn cael eu niweidio neu eu recordio mewn rhyw ffordd, efallai y byddant yn teimlo gormod o gywilydd dweud wrth unrhyw un am y digwyddiad, neu efallai fod ganddynt amgylchiadau cymhleth heb fawr o gefnogaeth (Marie Collins Foundation a NWG Network, 2020). Dylai'r ymateb cefnogol ganolbwyntio ar y plentyn a bod yn unigol, gan gynnwys ymgysylltu effeithiol â'r teulu cyfan, a dylai gweithwyr proffesiynol gynnwys y plentyn mewn prosesau gwneud penderfyniadau (Marie Collins Foundation a NWG Network, 2020).

Dylai gweithwyr proffesiynol gymryd camau i gael gwared ar ddelweddau rhywiol drwy roi gwybod i'r safle, yr ap neu'r rhwydwaith sy'n eu cynnal, a thrwy gysylltu â'r **Internet Watch Foundation**. Gall plant ddefnyddio adnodd Childline, **Report Remove**, gyda chymorth oedolyn dibynadwy. Mae hwn yn ddatblygiad cadarnhaol, ond mae'n bwysig nodi na fydd yr adnodd hwn yn gweithio ar hyn o bryd ar gyfer cynnwys ar apiau fel WhatsApp oherwydd eu bod yn defnyddio amgryptio o un pen i'r llall.

## Helpu plant i ddefnyddio technoleg a mannau ar-lein

Gall gweithwyr proffesiynol deimlo nad ydynt yn gallu helpu plant ynglŷn â gweithgarwch rhywiol sy'n seiliedig ar dechnoleg fel cynhyrchu delweddau a gynhyrchir gan blant eu hunain, gan nad ydynt eu hunain yn arbenigwyr mewn technoleg (Slane et al, 2021); fodd bynnag, nid oes angen gwybodaeth fanwl am dechnoleg i siarad â phlant am eu profiadau, a gall oedolion ofyn i blant ddangos neu egluro pethau nad ydynt yn eu deall.

Mae plant yn llai tebygol o ddioddef niwed os, yn ogystal â siarad â nhw am eu byd all-lein, bydd eu rhieni a'u gofalwyr yn cael sgyrsiau agored a gonest gyda nhw am eu bywydau ar-lein (Katz ac El Asam, 2020; Revealing Reality, 2022b). Mae gwerth ymarfer sy'n seiliedig ar berthynas yr un mor berthnasol i weithgarwch plant ar-lein ag ydyw i feysydd ymarfer eraill (Marie Collins Foundation a NWG Network, 2020).

Mae plant yn teimlo'n gyffredin mai eu cyfrifoldeb nhw yw amddiffyn eu hunain rhag niwed rhywiol ar-lein, ac mae hyn yn eu hatal rhag gofyn am help os ydynt yn profi'r niwed hwnnw (Beckett et al, 2019). Felly, mae'n hanfodol bod negeseuon ynghylch defnyddio technoleg yn gynnil, a dylid osgoi beio dioddefwyr yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol (Y Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Gyfryngau Cymdeithasol, 2022; Beckett et al, 2019). Dylai negeseuon cyffredinol i blant am ymddygiad rhywiol ar-lein gynnwys y pethau canlynol:

- pwysleisio y dylai plant ddisgwyl cael anawsterau ar-lein, ac egluro sut mae gofyn am help a chefnogaeth pan fydd hyn yn digwydd (Phippen a Bond, 2022)
- pwysleisio cyfrifoldeb pobl i beidio â niweidio pobl eraill na rhannu delweddau *heb ganiatâd*, yn hytrach nag atal *unrhyw* rannu delweddau rhywiol (Beckett et al, 2019; Phippen a Bond, 2020; Lloyd, 2020)
- helpu plant i ymateb i niwed rhywiol ar-lein gan gydnabod a chyfoedion, sy'n fwy cyffredin na cham-drin rhywiol ar-lein gan oedolion dieithr (Beckett et al, 2019; Finkelhor et al, 2021; Finkelhor, Walsh et al, 2022)
- cydnabod a galluogi meddwl beirniadol plant (Phippen a Bond, 2020), yn enwedig o ran pynciau ehangach fel parch mewn perthynas rhywiol, gorfodaeth a chaniatâd, ffiniau personol a phornograffi (Albury et al, 2017)
- osgoi negeseuon 'unigol' sy'n anwybyddu'r hyn sy'n debyg ac yn gorgyffwrdd rhwng ymddygiad ar-lein ac all-lein (Finkelhor et al, 2021).

Mae llawer o blant yn defnyddio dyddiadau geni neu oedrannau ffug i gofrestru ar gyfer adnoddau ar-lein, trechu rheolaethau rhieni, neu ddefnyddio dirprwy weinyddion (Jay et al, 2022; Revealing Reality, 2022b). Mae cwmnïau ar-lein yn tanamcangyfrif yn gyson nifer y defnyddwyr dan oed ar eu llwyfannau a faint o gynnwys niweidiol y mae plant yn dod i gysylltiad ag ef (Comisiynydd Plant, 2022). Mae'r angen i ddylunio llwyfannau ac adnoddau ar-lein gyda diogelwch mewn

golwg, y cyfeirir atynt fel 'diogelwch drwy ddylunio', ac am fwy o ymdrechion atal gan gwmnïau technoleg, wedi cael ei bwysleisio (Y Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Gyfryngau Cymdeithasol, 2022; Jay et al, 2022).

## Rhaglenni addysg am ymddygiad rhywiol mewn cyd-destunau ar-lein

Mae'n bwysig cydnabod cam datblygiad plant wrth benderfynu ar y math o addysg i'w rhoi iddyn nhw. Mae plant yn pwysleisio pwysigrwydd cael addysg cyn iddyn nhw ddechrau treulio amser ar-lein, sy'n golygu dechrau yn yr ysgol gynradd (Beckett et al, 2019).

Mae plant yn disgrifio'r angen am addysg am niwed rhywiol ar-lein i gydnabod dilysrwydd eu rhywioldeb sy'n datblygu yn ystod y glasoed a'r ffyrdd y gallai hyn ddigwydd yn y byd ar-lein, ac i'w helpu i gydnabod y ffiniau rhwng rhyngweithio rhywiol normal a niweidiol (Beckett et al, 2019).

Canfu arolwg ledled y DU fod plant yn fwy tebygol o gael addysg am ryw a diogelwch ar-lein nag addysg ar sut i gael perthnasoedd cadarnhaol ar-lein a datblygu sgiliau perthnasoedd (McGeeney a Hanson, 2017). Roedd llai o blant yn teimlo eu bod wedi cael addysg dda am *berthnasoedd* o'i gymharu ag addysg *diogelwch ar-lein,* a oedd yn cael sgôr uchel gan y rhan fwyaf o blant (McGeeney a Hanson, 2017).

Canfu astudiaeth arall fod rhai bechgyn yn teimlo nad oeddent yn gallu siarad am faterion sy'n ymwneud ag ymddygiad rhywiol ar-lein neu ofyn am help; nad oedd y materion sy'n eu hwynebu yn cael eu hystyried mor ddifrifol â'r rhai sy'n wynebu merched; a bod bechgyn yn cael llai o addysg na merched ar y pwnc hwn (Young Scot, 2019).

Gall rhaglenni addysg i atal ymddygiad rhywiol niweidiol weithio (Finkelhor et al, 2021; Finkelhor, Walsh et al, 2022; Walsh et al, 2022), ac mae astudiaethau sydd wedi archwilio eu gwerth o safbwyntiau plant. Er nad oes tystiolaeth ymchwil gref eto am raglenni sy'n ceisio atal pobl rhag cymryd rhan mewn ymddygiad rhywiol niweidiol ar-lein, gellir dysgu llawer o ymchwil i raglenni i atal bwlio ar-lein (Finkelhor, Walsh et al, 2022). Mae hyn yn cynnwys:

- defnyddio dulliau lluosog ac amrywiol o ennyn diddordeb plant a hyrwyddo dysgu
- ailadrodd negeseuon drwy wersi, nodiadau atgoffa a chamau dilynol
- mynd ati i ymgysylltu plant â'i gilydd drwy gyfathrebu a chwarae rôl
- sicrhau bod yr ysgol neu'r gymuned gyfan yn cymryd rhan
- annog rhieni i gymryd rhan drwy awgrymiadau gweithgareddau a roddir iddyn nhw
- cynnwys elfennau sgiliau sy'n ymwneud â datrys problemau, pendantrwydd, gwrthsefyll pwysau gan gyfoedion, empathi a chael persbectif, hunan-reoleiddio a rheoli ysgogiadau, datrys a thawelu gwrthdaro, chwilio am gymorth, ysgogi bod yn wyliwr, ac addysg rhyw.

Mae'r elfennau hyn wedi cael eu hymgorffori yn 'In the Picture', adnodd sy'n ceisio lleihau niwed pornograffi drwy ddefnyddio dulliau dysgu cyfranogol i feithrin gallu disgyblion ysgol uwchradd i feirniadu negeseuon pornograffi (Crabbe, 2014). Mae fframwaith, canllawiau a phecyn cymorth, sydd ar gael drwy wefan **It's Time We Talked**, wedi cael eu rhoi ar waith mewn ysgolion yn Awstralia a Seland Newydd ac maen nhw'n cael eu gwerthuso (Crabbe a Flood, 2021).

## Cyfeiriadau


Albury, K., Hasinoff, A. a Senft, T. (2017) From media abstinence to media production: Sexting, young people and education. Yn Allen, L. a Rasmussen, M. (gol.) *The Palgrave Handbook of Sexuality Education.* Llundain: Palgrave Macmillan.
**https://doi.org/10.1057/978-1-137-40033-8_26**

Allotey, J. a Swann, R. (2019) *Technology-assisted Harmful Sexual Behaviour: Practice Guidance (2nd edition).* Stockport: AIM Project.

Antevska, A. a Gavey, N. (2015) "Out of sight and out of mind": Detachment and men's consumption of male sexual dominance and female submission in pornography. *Men and Masculinities,* 18(5):605–629.
**https://doi.org/10.1177/1097184X15574339**

Baines, V. (2018) NetClean Report 2018: *A Report about Child Sexual Abuse Crime.* Gothenburg: NetClean.

Beckett, H., Warrington, C. a Devlin, J. (2019) *Learning about Online Sexual Harm.* Llundain: Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol.

Belton, E. a Hollis, V. (2016) *A Review of the Research on Children and Young People Who Display Harmful Sexual Behaviour Online.* Llundain: NSPCC.

Bond, E. (2014) *Childhood, Mobile Technologies and Everyday Experiences. Changing Technologies = Changing Childhoods?* Llundain: Palgrave Macmillan.
**https://doi.org/10.1057/9781137292537**

Bond, E., Ellis, F. a McCusker, J. (2018) *I'll Be a Survivor for the Rest of My Life. Adult Survivors of Child Sexual Abuse and Their Experience of Support Services.* Ipswich: Prifysgol Suffolk.

Bond, E. a Phippen, A. (2019) *Police Response to Youth Offending around the Generation and Distribution of Indecent Images of Children and Its Implications.* Ipswich: Prifysgol Suffolk.

Canadian Centre for Child Protection (2022) *An Analysis of Financial Sextortion Victim Posts Published on r/Sextortion.* Winnipeg: C3P.

Canadian Centre for Child Protection (2017) *Survivors Survey: Full Report 2017.* Winnipeg: C3P.

Carrotte, E., Davis, A. a Lim, M. (2020) Sexual behaviors and violence in pornography: Systematic review and narrative synthesis of video content analyses. *Journal of Medical Internet Research,* 22(5):e16702.
**https://doi.org/10.2196/16702**

Comisiynydd Plant (2023) *'A Lot of It Is Actually Just Abuse': Young People and Pornography.* Llundain: Swyddfa'r Comisiynydd Plant.

Comisiynydd Plant (2022) *Digital Childhoods: A Survey of Children and Parents.* Llundain: Swyddfa'r Comisiynydd Plant.

Crabbe, M. (2014) In the Picture: *Supporting Young People in an Era of Explicit Sexual Imagery. A Secondary School Resource.* De-orllewin Victoria: Brophy Family and Youth Services.

Crabbe, M. a Flood, M. (2021) School-based education to address pornography's influence on young people: A proposed practice framework. *American Journal of Sexuality Education,* 16(1):1–37.
**https://doi.org/10.1080/15546128.2020.1856744**

Cyngor y DU ar Ddiogelwch ar y Rhyngrwyd (2022) *Challenging Victim Blaming Language and Behaviours When Dealing with the Online Experiences of Children and Young People.* Llundain: Cyngor y DU ar Ddiogelwch ar y Rhyngrwyd.

ECPAT International (2020) *Summary Paper on Online Child Sexual Exploitation.* Bangkok: ECPAT International.

Finkelhor, D., Turner, H. a Colburn, D. (2022) Prevalence of online sexual offenses against children in the US. *JAMA Network Open,* 5(10):e2234471.
**https://doi.org/10.1001/jamanetworkopen.2022.34471**

Finkelhor, D., Walsh, K., Jones, L., Mitchell, K. a Collier, A. (2021) Youth internet safety education: Aligning programs with the evidence base. *Trauma, Violence, & Abuse,* 22(5):1233–1247.
**https://doi.org/10.1177/1524838020916257**

Finkelhor, D., Walsh, K., Jones, L., Sutton, S. a Opuda, E. (2022) *What Works to Prevent Online Violence against Children?* Geneva: Sefydliad Iechyd y Byd.

Fritz, N., Malic, V., Paul, B. a Zhou, Y. (2020) A descriptive analysis of the types, targets, and relative frequency of aggression in mainstream pornography. *Archives of Sexual Behavior,* 49(8):3041–3053.
**https://doi.org/10.1007/s10508-020-01773-0**

Gewirtz-Meydan, A., Walsh, W., Wolak, J. a Finkelhor, D. (2018) The complex experience of child pornography survivors. *Child Abuse & Neglect,* 80:238–248.
**https://doi.org/10.1016/j.chiabu.2018.03.031**

Goharian, A., Stroebel, M., Fitz, S., Copeland, J. a Toomey, P. (2022) *Self-generated Child Sexual Abuse Material: Youth Attitudes and Experiences in 2021.* Manhattan Beach, Nghaliffornia: Thorn.

Hackett, S., Branigan, P. a Holmes, D. (2019) *Harmful Sexual Behaviour Framework (ail argraffiad).* Llundain: NSPCC.

Hamilton-Giachritsis, C., Hanson, E., Whittle, H., Alves-Costa, F., Pintos, A., Metcalf, T. a Beech, A. (2021) Technology assisted child sexual abuse: Professionals' perceptions of risk and impact on children and young people. *Child Abuse & Neglect,* 119(1):104651. **https://doi.org/10.1016/j.chiabu.2020.104651**

Hamilton-Giachritsis, C., Hanson, E., Whittle, H. a Beech, A. (2017) *"Everyone Deserves to Be Happy and Safe". A Mixed Methods Study Exploring How Online and Offline Child Sexual Abuse Impact Young People and How Professionals Respond to It.* Llundain: NSPCC.

Hollis, V. a Belton, E. (2017) *Children and Young People Who Engage in Technology-assisted Harmful Sexual Behaviour: A Study of Their Behaviours, Backgrounds and Characteristics.* Llundain: NSPCC.

Jay, A., Evans, M., Frank, I. a Sharpling, D. (2022) *The Report of the Independent Inquiry into Child Sexual Abuse.* Llundain: Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol.

Joleby, M., Lunde, C., Landström, S. a Jonsson, L. (2020) "All of me is completely different": Experiences and consequences among victims of technology-assisted child sexual abuse. *Frontiers in Psychology,* 11:606218. **https://doi.org/10.3389/fpsyg.2020.606218**

Jonsson, L., Fredlund, C., Priebe, G., Wadsby, M. a Svedin, C. (2019) Online sexual abuse of adolescents by a perpetrator met online: A cross-sectional study. *Child and Adolescent Psychiatry and Mental Health,* 13:32. **https://doi.org/10.1186/s13034-019-0292-1**

Karsna, K. a Bromley, P. (2023) *Child Sexual Abuse in 2021/22: Trends in Official Data.* Barkingside: Canolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol.

Katz, A. ac El Asam, A. (2020) *Look at Me – Teens, Sexting and Risks.* Llundain: Internet Matters.

Leonard, M. (2010) "I did what I was directed to do but he didn't touch me": The impact of being a victim of internet offending. *Journal of Sexual Aggression,* 16(2):249–256. **https://doi.org/10.1080/13552601003690526**

Lim, M., Carrotte, E. a Hellard, M. (2016) The impact of pornography on gender-based violence, sexual health and well-being: What do we know? *Journal of Epidemiology & Community Health,* 70(1):3–5. **https://doi.org/10.1136/jech-2015-205453**

Livingstone, S., Davidson, J., Bryce, J. a Batool, S. (2017) *Children's Online Activities, Risks and Safety: A Literature Review by the UKCCIS Evidence Group.* Llundain: Cyngor y DU ar Ddiogelwch ar y Rhyngrwyd.

Lloyd, J. (2020) Abuse through sexual image sharing in schools: Response and responsibility. *Gender and Education,* 32(6):784–802. **https://doi.org/10.1080/09540253.2018.1513456**

McGeeney, E. a Hanson, E. (2017) *Digital Romance: A Research Project Exploring Young People's Use of Technology in Their Romantic Relationships and Love Lives.* Llundain: Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol a Brook.

Marie Collins Foundation a NWG Network (2020) *Online Sexual Harm Reduction Guide.* Northallerton: Marie Collins Foundation.

Marston, C. a Lewis, R. (2014) Anal heterosex among young people and implications for health promotion: A qualitative study in the UK. *BMJ Open,* 4(8):e004996. **https://doi.org/10.1136/bmjopen-2014-004996**

Mori, C., Park, J., Racine, N., Ganshorn, H., Hartwick C. a Madigan, S. (2023) Exposure to sexual content and problematic sexual behaviors in children and adolescents: A systematic review and meta-analysis. *Child Abuse & Neglect,* 143:106255. **https://doi.org/10.1016/j.chiabu.2023.106255**

Ofcom (2022) *Children and Parents: Media Use and Attitudes Report 2022.* Llundain: Ofcom.

Phippen, A. (2016) *Children's Online Behaviour and Safety: Policy and Rights Challenges.* Llundain: Palgrave Macmillan. **https://doi.org/10.1057/978-1-137-57095-6**

Phippen, A. a Bond, E. (2022) Working with schools to tackle online harms and gender-based violence. Yn Humphreys, C. a Towl, G. (gol.) *Stopping Gender-based Violence in Higher Education: Policy, Practice, and Partnerships.* Llundain: Routledge. **https://doi.org/10.4324/9781003252474**

Phippen, A. a Bond, E. (2020) *Organisational Responses to Social Media Storms. An Applied Analysis of Modern Challenges.* Cham: Palgrave MacMillan. **https://doi.org/10.1007/978-3-030-49977-8**

Phippen, A. a Phippen, H. (2018) The UK Government Internet Safety Strategy – Time to listen to the youth voice? *Entertainment Law Review,* 29(8):237–244.

Project deSHAME (2017) *Young People's Experiences of Online Sexual Harassment.* Llundain: Project deSHAME.

Quayle, E. a Cariola, L. (2019) Management of non-consensually shared youth-produced sexual images: A Delphi study with adolescents as experts. *Child Abuse & Neglect,* 95:104064
**https://doi.org/10.1016/j.chiabu.2019.104064**

Revealing Reality (2022a) *Not Just Flirting. The Unequal Experiences and Consequences of Nude Image-sharing by Young People.* Llundain: Revealing Reality.

Revealing Reality (2022b) *Research into Risk Factors That May Lead Children to Harm Online.* Llundain: Ofcom.

Revealing Reality (2020) *Young People, Pornography and Age-verification.* Llundain: Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain.

Ringrose, J., Gill, R., Livingstone, S. a Harvey, L. (2012) *A Qualitative Study of Children, Young People and 'Sexting'.* Llundain: NSPCC.

Rothman, E., Kaczmarsky, C., Burke, N., Jansen, E. a Baughman, A. (2015) "Without porn … I wouldn't know half the things I know now": A qualitative study of pornography use among a sample of urban, low-income, Black and Hispanic youth. *The Journal of Sex Research,* 52(7):736–746.
**https://doi.org/10.1080/00224499.2014.960908**

Setter, C., Greene, N., Newman, N. a Perry, J. (2021) *Global Threat Assessment 2021.* Sevenoaks: WeProtect Global Alliance.

Shor, E. (2019) Age, aggression, and pleasure in popular online pornographic videos. *Violence Against Women,* 25(8):1018-1036.

Shor, E. a Golriz, G. (2019) Gender, race, and aggression in mainstream pornography. *Archives of Sexual Behavior,* 48(3):739–751.
**https://doi.org/10.1007/s10508-018-1304-6**

Shor E. a Seida, K. (2019) "Harder and harder"? Is mainstream pornography becoming increasingly violent and do viewers prefer violent content? *The Journal of Sex Research,* 56(1):16–28.
**https://doi.org/10.1080/00224499.2018.1451476**

Slane, A., Martin, J. a Rimer, J. (2021) Views and attitudes about youth self-produced sexual images among professionals with expertise in child sexual abuse. *Journal of Child Sexual Abuse,* 30(2):207–229.
**https://doi.org/10.1080/10538712.2021.1875095**

Stanley, N., Barter, C., Wood, M., Aghtaie, N., Larkins, C., Lanau, A. ac Överlien, C. (2018) Pornography, sexual coercion and abuse and sexting in young people's intimate relationships: A European study. *Journal of Interpersonal Violence,* 33(19):2919–2944.
**https://doi.org/10.1177/0886260516633204**

Truth Project (2022) *I Will Be Heard. Victims and Survivors' Experiences of Child Sexual Abuse in Institutional Contexts in England and Wales.* Llundain: Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol.

Turner, H., Finkelhor, D. a Colburn, D. (2023) Predictors of online child sexual abuse in a US national sample. *Journal of Interpersonal Violence,* 38(11–12):7780–7803.
**https://doi.org/10.1177/08862605221149090**

UNICEF (2017) *The State of the World's Children 2017. Children in a Digital World.* New York: UNICEF.

Vannier, S., Currie, A. ac O'Sullivan, L. (2014) Schoolgirls and soccer moms: A content analysis of free "teen" and "MILF" online pornography. *The Journal of Sex Research,* 51(3):253–264.
**https://doi.org/10.1080/00224499.2013.829795**

Vaswani, N., Mullen, L., Efthymiadou, E. ac Allardyce, S. (2022) *The Risk of Online Sexual Abuse (ROSA) Project.* Bromsgrove: Lucy Faithfull Foundation.

Walker, S., Temple-Smith, M., Higgs, P. a Sanci, L. (2015) 'It's always just there in your face': Young people's views on porn. *Sexual Health,* 12(3):200–206.
**https://doi.org/10.1071/SH14225**

Whittle, H., Hamilton-Giachritsis, C. a Beech, A. (2013) Victims' voices: The impact of online grooming and sexual abuse. *Universal Journal of Psychology,* 1(2):59–71.
**https://doi.org/10.13189/ujp.2013.010206**

Wolak, J., Finkelhor, D., Walsh, W. a Treitman, L. (2018) Sextortion of minors: Characteristics and dynamics. *Journal of Adolescent Health,* 62(1) 72–79.
**https://doi.org/10.1016/j.jadohealth.2017.08.014**

Y Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Gyfryngau Cymdeithasol (2022) *Selfie Generation. What's behind the Rise of Self-generated Indecent Images of Children Online?* Llundain: Y Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Gyfryngau Cymdeithasol.

Young Scot (2019) *Insight: Attitudes to Online Sexual Activities.* Caeredin: Young Scot.

## Papurau eraill yn y gyfres 'Negeseuon allweddol o'r ymchwil'

**Camfanteisio'n rhywiol ar blant:**

- Negeseuon allweddol ar gyfer staff sy'n gweithio mewn lleoliadau iechyd
- Negeseuon allweddol ar gyfer comisiynu gwasanaethau gofal iechyd
- Negeseuon allweddol ar gyfer yr heddlu
- Negeseuon allweddol ar gyfer comisiynu gwasanaethau'r heddlu yn strategol
- Negeseuon allweddol ar gyfer gweithwyr cymdeithasol
- Negeseuon allweddol ar gyfer comisiynu gwasanaethau plant yn strategol
- Negeseuon allweddol ar gyfer gweithwyr proffesiynol mewn lleoliadau ysgolion
- Negeseuon allweddol ar gyfer gweithio'n amlasiantaethol
- Bylchau yn y sylfaen wybodaeth

Plant a phobl ifanc sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol

Effeithiau cam-drin plant yn rhywiol

Nodi datgeliadau o gam-drin plant yn rhywiol ac ymateb iddynt

Plant sy'n derbyn gofal a cham-drin plant yn rhywiol

Cam-drin plant yn rhywiol a gyflawnir gan oedolion

Cam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu

Cam-drin plant yn rhywiol mewn cyd-destunau sefydliadol

Oedolion yn cam-drin plant yn rhywiol mewn cyd-destunau ar-lein

Ewch i **www.csacentre.org.uk/research-publications/key-messages**

Centre of expertise on child sexual abuse

Barnardo House, Tanners Lane, Barkingside, Ilford, Essex IG6 1QG
E: info@csacentre | @csacentre
**www.csacentre.org.uk**

24584mw23